Dewis Cathdy

Mae hi'n bwysig cymryd eich amser i ddewis cathdy, yn cynnwys edrych o gwmpas y llety arfaethedig i wneud yn siŵr y bydd eich cath mor hapus gyda'i gwyliau ag yr ydych chi gyda'ch gwyliau chi. Mae hyn yn sicrhau tawelwch meddwl. Cynghorir chi i wneud hyn yn ystod oriau agor ac yn ddirybudd ond os yn bosibl dylid osgoi cyfnodau penwythnos/gwyliau banc prysur.

1) **Trwyddedu**-cadarnhewch fod y cathdy wedi'i drwyddedu gan yr awdurdod lleol, mae hyn yn golygu y bydd rhywun o'r cyngor yn ymweld â'r cathdy o leiaf unwaith y flwyddyn i wneud yn siŵr fod safonau penodedig yn cael eu cwrdd. Dylai perchennog cathdy allu dangos copi o hyn ichi.

2) **Yswiriant**- cadarnhewch fod gan y cathdy bolisi yswiriant cyfredol i ofalu am eich cath petai'n mynd yn sâl yn eich absenoldeb. Mae hyn yn hanfodol bwysig os digwydd argyfwng gan fod biliau milfeddyg yn gostus yn aml. Dylai perchennog y cathdy allu dangos copi o'u polisi ichi.

3) **Brechiadau**- dylech ond letya eich cath mewn cathdy sy'n mynnu brechiadau cyfredol. Mae hyn yn diogelu eich cath rhag clefydau heintus, a'r tebygolrwydd o ddod i gysylltiad â nhw.

4) **Llety**- gofynnwch am gael gweld corlan y gallai eich cath fynd iddi, aseswch ei maint, pa un a oes iddi fynediad dan do a thu allan, pa fath o wres/olau sydd yno, ac a fydd gan eich cath fynediad at fan preifat allan o olwg cathod eraill. Os oes gennych fwy nag un gath gofynnwch a ellir eu cadw gyda'i gilydd.

5) **Glanweithdra**- pa mor lân yw'r corlannau sydd mewn defnydd, a yw'r blychau baw a phi yn lân. Dylai fod tystiolaeth o ddefnyddio diheintydd. Gofynnwch am gael gweld y gegin/man paratoi bwyd, gan edrych nid yn unig am lanweithdra ond am drefn fel ei bod yn glir i'r staff pa gath sy'n bwyta beth. Mae hyn yn arbennig o bwysig os oes gan eich cath fwyd arbennig/alergeddau/ feddyginiaeth.

6) **Staff**- Holwch y staff ynghylch eu hyfforddiant a'u profiad, y rhain fydd y bobl sy'n gofalu am eich cath felly mae hi'n bwysig eu bod yn wybodus. Os yw eich cath yn un hir ei blew yna gofynnwch a fydd hi'n cael ei brwsio.

7) **Y cathod**- Yn olaf edrychwch ar y cathod eu hunain, a oes golwg ddiddig arnynt? A ydynt mewn corlannau glân gyda mynediad at fwyd a dŵr? Sut maen nhw'n ymateb i'r staff? A oes golwg fodlon arnynt?

Y peth gorau yw cael golwg ar ychydig o gathdai i weld gwahanol ddulliau a phwyso a mesur eich dewisiadau. Unwaith yr ydych wedi dewis eich cathdy cynghorir chi i roi eich cath i mewn am arhosiad byr (un noson) i gael gweld a ydych chi a'ch cath yn fodlon ar y trefniant cyn arhosiad hirach.

Iechyd Anifeiliaid a Thrwyddedu, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun. LL15 1YN.
Rhif ffôn: (01824) 706086 / 706189 Ffacs: (01824) 706067
Ebost: iechydanifeiliaid@sirddinbych.gov.uk

CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL